

# **Gwasanaethau Addysg Conwy**

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020**

**Rhagfyr 5ed, 2017**

## Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Conwy 2017-2020

1. Dyma weledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf.

Gweledigaeth:

Mae gan Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy weledigaeth i sicrhau bod holl disgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym am sicrhau bod pob cyfle i blant a phobl ifanc y sir i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni fel eu bod yn dymuno defnyddio'r iaith o fewn y teulu, yn y cymunedau ac yn y gweithle.

Rydym fel awdurdod yn ymrwymedig i ddyheadau Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn cyfrannu at y weledigaeth hon trwy gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ynghyd ag annog balchder plant a phobl ifanc y sir yn y Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i dderbyn addysg Cyfrwng Cymraeg i bob plentyn sy'n dymuno hynny, ac yn datblygu cynlluniau marchnata yn lleol ac yn rhanbarthol i annog twf. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gofal cyn ysgol cyfrwng Cymraeg a sut y gallai twf yn y sector yma gyfrannu'n helaeth at dwf yn y nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Fe fyddwn felly yn cydweithio'n agos â Mudiad Meithrin i gyflawni'r weledigaeth hon. Rydym eisoes yn gweithredu cynllun hwyrddyfodiad i addysg Cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2, ac mae cynnig cyfleoedd i blant i fynychu Canolfan Iaith y Sir yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn ogystal a chreu mwy o leoedd cyfrwng Cymraeg trwy *Rhaglen cyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif* Llywodraeth Cymru, fe fyddwn hefyd yn diweddarau polisi iaith y sir ac yn pennu amserlen benodol ar gyfer symud ysgolion ar hyd y continwmm ieithyddol. Fe fyddwn hefyd am gynyddu nifer y disgyblion sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Cymraeg ac wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ac yn parhau ar drywydd Cymraeg iaith Gyntaf yn CA3.

Fel a nodir yn Strategaeth Iaith Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-22 a fydd yn cael ei gweithredu law yn llaw a'r strategaeth hon, ni allwn gyflawni ein gweledigaeth heb weithio mewn partneriaeth a sefydliadau eraill, ysgolion ac unigolion. Rydym eisoes wedi sefydlu Fforwm Addysg a fydd yn cyfarfod unwaith bob hanner tymor, ac yn cynnwys cynrychiolaeth eang ar draws y sector addysg, gyda'r nod o gytuno cynllun gweithredu a monitro'r strategaeth hon. Bydd y Fforwm yn cynnwys trawsdoriad o randdeiliaid gan gynnwys Gwasanaeth cymdeithasol, gwasanaethau ieuencid, dysgu gydol oes, datblygu economaidd, hamdden a chynllunio, Cynghorwyr a Llywodraethwyr ysgolion, asiantaethau Cymreig megis ffermwyr Ifanc, Urdd, Menter iaith. ( Gweler atodiad 1)

Er mwyn sicrhau fod y strategaeth hon yn cael ei pherchnogi a'i gweithredu yn fewnol gan yr awdurdod, fe fyddwn yn adrodd ar y cynllun gweithredu ym Mhwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau, yn flynyddol, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion ar draws adrannau addysg yn dymhorol (EMT) a gyda Pennaeth Addysg yn fisol.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn adlewyrchu polisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru, sef Cymraeg 2050, Ailysgrifennu'r dyfodol, Dyfodol llwyddiannus a Chenedlaethau'r Dyfodol.

O gyflawni nodau'r strategaeth hon, hyderwn y bydd datblygiad cadarnhaol nid yn unig i addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg y Sir, ond hefyd i addysg gyflawn disgyblion Sir Conwy. Mae cabinet Conwy yn gefnogol i Strategaeth Gymraeg y Sir ac yn weithredol yn ei hybu.

#### **Amcanion:**

- Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg i rieni gan gynnal cyfres o ymgyrchoedd a digwyddiadau cymunedol i deuluoedd mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, Gwasanaethau cefnogi teuluoedd yr awdurdod, dechrau'n deg, Menter Iaith, a'r Urdd. Fe fyddai'r digwyddiadau rhain yn cael eu cynllunio er mwyn cyd-redeg a bwriad y sir y gynnal asesiad o'r galw am addysg Gymraeg yn y Sir.
- Mewn cydweithrediad â Athrawon Ymgynhorol Blynddoedd Cynnar sydd yn cefnogi'r lleoliadau ar lawr dosbarth yn rheolaidd, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a PPA, adnabod anghenion y maes cyn-ysgol i gynnwys tracio cynnydd disgyblion ac ymateb fel bo'r galw, cynnig cyfleoedd i uwch sgilio staff a pharhau i gefnogi cynllun Croesi'r Bont, Clebran a Chymraeg i Bawb.
- Parhau i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion cynradd fynychu'r Ganolfan Iaith am dymor i gynnwys cefnogaeth cyn ac ar ôl mynychu. Mi fydd y Ganolfan hefyd yn cynnig sesiynau Gloywi Iaith pellach fel bo'r angen ar gyfer disgyblion ac yn cefnogi eu hathrawon. Parhau hefyd i gefnogi Cynllun trochi Creuddyn gan gydweithio â'r ysgol i farchnata a hyrwyddo'r cynllun ymhellach ymysg rhieni darpar fyfyrwyr.
- Adolygu opsiynau ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Abergele/Bae Kinmel, Towyn/ Llanddulas a Llanfairfechan. Fe fyddwn yn cydweithio'n agos a'r ddwy ysgol bresennol yn Llanfairfechan yn ystod cyfnod y strategaeth hon er mwyn eu symud o gategori 4 i gategori 3.
- Cydweithio gyda phob ysgol Uwchradd y Sir er mwyn cynyddu'r canrannau sy'n cael eu hasesu trwy'r Gymraeg ym mlwyddyn 9 a chynnig cefnogaeth ychwanegol i'r ysgolion cyfrwng Saesneg sydd yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg iaith gyntaf yn CA3, er mwyn galluogi mwy o ddisgyblion i ennill cymhwyster TGAU Cymraeg iaith gyntaf.

2. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhwch ddatganiad ynghylch hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol y Cyngor yn ymrwmo'r Cyngor i ddarparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy'n cyfarfod y meini prawf pellter statudol i'r ysgol cyfrwng y Gymraeg agosaf (h.y. Ysgolion yng nghategori 1 neu 2).

Bydd disgyblion sydd yn mynychu'r Ganolfan Iaith yn derbyn cludiant cartref i'r ysgol am ddim os ydynt yn cyfarfod y meini prawf pellter statudol.

Os yw'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg agosaf y tu allan i Sir Conwy, yna bydd y Sir yn dilyn yr un polisi ac yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol Gymraeg agosaf, os ydynt yn cyfarfod y meini prawf pellter statudol. Fodd bynnag bydd rhaid o bosibl, ail ystyried polisi cludiant y Sir o safbwynt cludo plant ar draws y ffin, oherwydd y colliant i ysgolion Cymraeg Conwy. (Adran Gyfreithiol y Sir yn edrych ar hyn ar hyn o bryd)

Mae gan Sir Conwy ddyletswydd i gydymffurfio â dymuniad rhieni pan na fo rhif derbyn ysgol wedi'i gyrraedd.

3.

### **Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Nodwch eich sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'ch targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
273/ 1178	272/1166	317/1149	289/1090
23.2%	23.3%	27.6%	26.5%

Dengys data demograffeg presennol y Sir bod y niferoedd erbyn 2019/2020 yn debygol o ostwng, fodd bynnag mae trend y canrannau yn parhau i gynyddu- 20.6% yn 2012/ 2013 i 26.5% 2019/2020.

#### **Amcanion:**

- Cynnal adolygiad llawn i Fesur y Galw am addysg cyfrwng Cymraeg erbyn Chwefror 2018.
- Ehangu'r ddarpariaeth meithrin anstatudol trwy greu 30 o leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn y sir ynghyd â chefnogi Mudiad Meithrin i sefydlu 2 o gylchoedd newydd erbyn 2020
- Ehangu capasiti dros dro yn ysgol Glan Morfa, Abergele i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal gan gynnig 30 o leoedd ychwanegol erbyn Medi 2017. Byddwn hefyd yn unol a chynlluniau'r Sir trwy *Rhaglen cyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif* Llywodraeth Cymru, yn adnabod sut y byddwn yn cynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Abergele/Bae Kinmel/ Towyn, Llanddulas ac ardal Llanfairfechan yn ystod cyfnod Band B (2019-2024)

- Edrych ar y posibilrwydd bod y cylchoedd meithrin uchod yn cael eu hymgorffori o fewn y gyfundref ysgol yn hytrach na gweithredu yn annibynnol. O bosibl byddai hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ac yn diogelu rhag anhawsterau staffio sydd yn amlwg yn y sir.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu ysgol Bod Alaw er mwyn sicrhau safle cylch meithrin Bae Colwyn ar dir yr ysgol, a fydd yn bwydo yr ysgol.
- Cydweithio gydag o leiaf 5 o ysgolion category 4 i symud i category 3 yn y 5 mlynedd nesaf a sicrhau bod holl ysgolion y Sir yn symud ar hyd y continwwm iaith erbyn 2025. Fe enwir yr ysgolion a gosodir amserlen yn y cynllun gweithredu a fydd yn cydreddeg a'r Cynllun strategol hwn.

#### **Datganiad cefnogol:**

Mae gan y Sir ddemograffeg amrywiol iawn gyda niferoedd yr oedrannau hŷn yn cynyddu, rhagolygon bod genedigaethau yn gostwng a chyfuniad o ardaloedd arfordirol, gwledig a threfol.

Mae gan Cyngor Bwrdeister Sirol Conwy 55 o ysgolion cynradd, 7 ysgol uwchradd ac 1 Ysgol Arbennig. Mae natur ieithyddol amrywiol y Sir ynghyd ag amrywiaeth yn yr ardaloedd lle mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg wedi golygu fod gan Conwy ysgolion ym mhob un o'r 5 categori ieithyddol.

Yn ôl y diffiniad o ysgolion categori 1, maent fel a ganlyn;

- Bod Alaw
- Glan Morfa
- Morfa Rhianedd
- Betws y coed
- Betws yn rhos
- Bro Aled
- Bro Cernyw
- Bro Gwydir
- Capel garmon
- Cerrigydrudion
- Dolgarrog
- Dolwyddelan
- Eglwysbach
- Llanddoged
- Llangelynnin
- Llanefydd
- Penmachno
- Pentrefoelas
- Tal y Bont
- Ysbyty Ifan

Mae Ysgol Pencae yn cael ei diffinio fel 'ysgol drosiannol' ar hyn o bryd ond mae blwyddyn ychwanegol o addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig yno eleni (2017) sy'n golygu y bydd holl ddisgyblion yr ysgol yn dilyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn Medi 2018.

Mae ysgol Awel y Mynydd yn cael ei ddiffinio fel 'ddwy ffrwd' ond mae'r Dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn cael eu dysgu yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Ysgol Creuddyn yw'r ysgol uwchradd benodedig Gymraeg gydag Ysgol Dyffryn Conwy yn cynnig darpariaeth ddwyieithog.

Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad i Fesur y Galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir erbyn Chwefror 2018 er mwyn gosod gwaelodlin cyfredol o ble mae'r galw. Yn ogystal â dilyn y drefn arferol o fesur y galw trwy ffurf holiaduron, fe fyddwn hefyd mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid ein Fforwm, yn datblygu cyfres o ymgyrchoedd penodol i godi ymwybyddiaeth o beth yw addysg Gymraeg. Fe fyddai'r ymgyrchoedd/sesiynau hyn nid yn unig yn gyfle i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg ond hefyd yn gyfle i drafod y pryderon sydd gan rai rhieni/gofalwyr am addysg Gymraeg.(Cydweithio gyda ee Menter/ Mudiad ayyb)

Rydym eisoes wedi adnabod yr angen i ehangu capasiti ysgol Glan Morfa yn sgil cynnydd yn y galw ac fe fydd hynny yn cael ei weithredu erbyn Medi 2022. Mae gan Ysgol Glan Gele 4% o ormodedd, Sant Elfod, 3%, Llanddulas 9%. Yn ogystal, does gan Ysgol Y Foryd ond 3.3% o leoedd gwag ac Ysgol Glan Morfa 11.6% o leoedd gwag. Ysgolion categori 5 yw bob un o'r rhain onibai am ysgol Glan Morfa. Bydd y Sir yn annog y rhieni i anfon y plant i'r ysgol Gymraeg lleol. Law yn llaw a chynnal asesiad o'r galw, fe fyddwn yn parhau i adolygu niferoedd mynediad ein ysgolion er mwyn sicrhau bod lleoedd digonol ar gael.

Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-22 yn nodi ein bod am weld cynnydd o 2% yn niferoedd siaradwyr Cymraeg y Sir sydd yn medru'r Gymraeg erbyn 2022. Heb os, un o'r blaenoriaethau ar gyfer cyrraedd y nod hwn yw cynyddu'r niferoedd o blant mewn dosbarthiadau derbyn cyfrwng Cymraeg. Un ffordd o sicrhau hyn, yw trwy gydweithio gyda darparwyr gofal plant cyn oed ysgol. Byddwn felly yn mynd ati mewn partneriaeth a rhanddeiliaid y Fforwm i ddatblygu ffyrdd o gefnogi a chydweithio â darparwyr gofal plant. Fe fyddwn hefyd yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y cynnig arfaethedig i gynnis 30 awr o ofal plant am ddim. Mae cynyddu niferoedd y cylchoedd meithrin ar draws y sir hefyd yn allweddol er mwyn bwydo dosbarthiadau meithrin/derbyn yr ysgolion. Fe fyddwn yn cydweithio gyda Mudiad Meithrin er mwyn cefnogi'r 19 cylch meithrin sydd eisoes yn weithredol yn y sir, ynghyd â chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i gynyddu niferoedd y cylchoedd meithrin gan gefnogi agor 2 o gylchoedd newydd erbyn 2020.

Gyda mewnfudo ac allfudo rheolaidd yn ffactor a'r rhagolygon poblogaeth yn awgrymu cwmp yn niferoedd y plant oedran ysgol dros y blynyddoedd nesaf, mae'n hanfodol felly ein bod ni'n cynllunio nid yn unig ar gyfer ehangu'r capasiti cyfrwng Cymraeg ond hefyd yn symud ein ysgolion presennol ar hyd y continwmm ieithyddol. Fe fyddwn yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cytuno ar flaenoriaethau Sir o fewn y *Rhaglen cyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ad-drefnu ysgolion, fe fyddwn yn adolygu opsiynau ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Abergele/Bae Kinmel, Towyn/Llanddulas a Llanfairfechan. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda'r ysgolion penodol fel eu bod yn codi o leiaf un categori ar hyd y continwmm iaith erbyn 2022.

Rydym ar hyn o bryd yn cynllunio cynllun trochi llafar 'Camau Cyntaf', a fydd yn hybu codi safonau a datblygu sgiliau iaith cynnar, ac a fydd yn cynnis arweiniad i ysgolion ar sut i symud y disgyblion ar hyd y continwmm ieithyddol a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar sgiliau llafar disgyblion ac yn enghreifftio gweithgareddau priodol i ddiwallu anghenion Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Rydym yn bwriadu peilota'r cynllun gyda thrawsdoriad o ysgolion Categoriâu 1-5,er mwyn sicrhau effeithiolrwydd /

addaswydd y cynllun a newid/ addasu fel bo'r gofyn, cyn ei gyflwyno i holl ysgolion y sir. Mae peilot ar waith yn Ysgol Glan Morfa eisoes, 2016-2018 a bydd gweddill ysgolion categori targed yn cychwyn ar y prosiect 2017-2018.

Mae'r rhaglen yn cynnig hyblygrwydd i'r sir fedru targedu ysgolion penodol yn ôl yr angen gyda'r bwriad yn y pendraw i weld mwy o ddisgyblion yn trosglwyddo i'r ffrydiau Cymraeg. Er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun, cefnogir yr ysgolion dan sylw gan dîm yr Athrawon Ymgynghorol a fydd yn hyfforddi chefnogi'r staff

## Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Ein sefyllfa bresennol a thargedau ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n ymwneud â nifer y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (Iaith Gyntaf)

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
227/1069	231/1074	244/1105	257/1109
21.2%	21.5%	22.1%	23.2%

Unwaith y bydd yr ysgolion wedi symud amlaen ar hyd y continiwwm, disgwylir y bydd newid cadarnhaol i'r canrannau yma.

### Amcanion:

- Cydweithio ar gynllun Croesi'r Bont gyda 6/7 o gylchoedd meithrin yn flynyddol gan dargedu 300 o blant erbyn 2020 ynghyd a gweithredu prosiect '# cychwyn gorau Mudiad Meithrin' mewn 4 o ysgolion/ lleoliadau erbyn 2020 gyda'r bwriad o gynyddu niferoedd trosglwyddo o addysg feithrin Cymraeg nas gynhelir i addysg feithrin a ariennir/ cyfnod Sylfaen i 98%. Cydweithio hefyd gyda nifer o ysgolion penodol er mwyn hwyluso'r broses i newid categori'r ysgol.
- Datblygu cynllun gweithredu gydag ysgol Creuddyn i atal colled disgyblion y dalgylch gan anelu at gynyddu niferoedd sy'n trosglwyddo i 10% erbyn 2020. Ar hyn o bryd mae 96/1118 o ddisgyblion BI7 y Sir, yn mynychu yr ysgol. (8.5%)
- Codi safonau er mwyn cynyddu'r ganran o ddisgyblion a asesir mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar draws y Sir ar ddiwedd Blwyddyn 9 erbyn 2025
- Targed presennol Ysgol y Creuddyn diwedd CA3 2019-2020:79% -76/96 disgybl. Hyderir y bydd y rhif yma yn codi i 90+% yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2020.

### Cynllun trochi Creuddyn

- 2018-2019: targed o 30 dysgwr
- 2019-2020: targed o 35 dysgwr
- 2020-2021: targed o 40 dysgwr
- Parhau i dargedu y niferoedd sy'n trosglwyddo i Addysg Cyfrwng Cymraeg Ysgol Dyffryn Conwy. 2017-80/ 2018, 2019, 2020- 100 bob blwyddyn. Bydd cynnydd ar gyfer y nifer a asesir mewn Cymraeg iaith gyntaf yn 2017- 77

disgybl, 2018- 97 disgybl, 2019-100 disgybl, fodd bynnag oherwydd demograffeg yr ardal, yn 2020, bydd y cohort yn llai -80 disgybl

Datganiad cefnogol:

Mae'r sir wedi penodi 'Swyddog Gweithredu' a fydd yn cyd weithio â'r tîm cyn ysgol/ Mudiad Meithrin/ Fforwm, er mwyn sicrhau llwyddiant i gynllun 'Croesi'r Bont' sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llafar Cymraeg yn y Cylchoedd Meithrin. Mae'r cynllun hefyd yn fodd i bontio yn ieithyddol rhwng cylchoedd Mudiad Meithrin a dosbarthiadau meithrin o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddwn hefyd yn parhau i weithredu cynllun '#cychwyn gorau Mudiad Meithrin' i gynyddu ac annog dilyniant o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg i ddosbarthiadau meithrin/derbyn cyfrwng Cymraeg. Yn y lleoliadau lle na fydd y cynllun yma ar waith, bydd swyddogion Sirol yn cefnogi a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg yn ystod eu hymweliadau cefnogi/ monitro.

Mi fydd Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg y Sir yn parhau i gydweithio â'r ysgolion Cynradd ac Uwchradd er mwyn sicrhau dilyniant o un CA i'r llall ac yn cefnogi a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg o fewn yr ysgolion. Fel rhan o'n bwriad i gefnogi 55 o ysgolion cynradd y Sir i symud ar hyd y continwwm, mi fyddwn yn cynnal cyfres o hyfforddiant er enghraifft Hyfforddiant cyflwyno y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen/ Hyfforddiant methodoleg addysgu iaith/ hyrwyddo'r a rhoi mewnbwn i'r Cynllun Sabothol/cefnogaeth dilynol o fewn ysgolion er mwyn uwch sgilio staff. Gydag ysgolion yn llwyddo i symud ar hyd y continwwm, mi fyddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau i gefnogi disgyblion er mwyn sicrhau eu bod â'r sgiliau i fedru trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Fe fyddwn hefyd yn adolygu a diweddarau ein polisi iaith gan sicrhau fod pob ysgol yn y Sir yn ei weithredu, ac i'r perwyl hwn fe fyddwn yn cynnal sesiynau hyfforddiant i Gynghorwyr a Llywodraethwyr/ ysgolion y Sir ar gynnwys y polisi ynghyd a chynnwys y strategaeth hon. Wrth i'r gwaith o symud ysgolion ar hyd y continwwm fynd rhagddo, fe fyddwn yn sicrhau bod cyfathrebu a chefnogaeth gyson yn cael ei gynnig nid yn unig i'r ysgolion a'r disgyblion ond i'r Llywodraethwyr a'r rhieni.

Mi fydd gwaith datblygu pellach er mwyn sicrhau bod cyfraddau disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd trwy godi safonau yn y cyfnod Sylfaen a CA2 (Lefel 3-5) yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gwelir bo cynnydd yn y ganran o ddisgyblion sydd wedi cael eu hasesu yn y Gymraeg dros y 4 mlynedd diwethaf a bod y bwlch rhwng y rhai sy'n cael eu hasesu ym mlwyddyn 6 a blwyddyn 9 yn lleihau. Mae ffigurau eleni er enghraifft fel a ganlyn; BI6 (22.1%) a BI9 (20.1%). Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud yn yr ysgolion a'u hymdrechion i gefnogi datblygiad Addysg Cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, yn wyneb ein heriau o safbwynt cwmp yn y boblogaeth lau, rhaid parhau i dargedu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau na fydd colled yn y niferoedd sydd ym mlwyddyn 6 ar hyn o bryd, a bod cynnydd cyson yn y sector Gymraeg i'r dyfodol.

Mae'r Sir yn bwriadu ymgorffori ethos y Siarter Iaith yn yr ysgolion uwchradd erbyn 2019 fel bod dilyniant i gynlluniau yn y Cyfnod Sylfaen/ CA2, o ran cynnydd y defnydd o'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol y Sir fel yr ydym yn nodi yn Neilliant 5.

Mae polisi cludiant y Sir yn datgan os yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg agosaf y tu allan i Sir Conwy, yna bydd y Sir yn dilyn yr un polisi ac yn darparu cludiant am



ddim i'r ysgol honno. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod y Sir yn colli disgyblion o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd i ysgol uwchradd dros y ffin. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r polisi hwn yn ystod oes y strategaeth hon. Byddwn hefyd yn ail edrych ar gynllun trochi CA2 a polisi cludiant ysgolion sy'n bwydo ysgolion Dyffryn Conwy er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd fel bo mwy o ddisgyblion yn pontio i'r cyfrwng Cymraeg.

Mewn ymateb i'r her o ddisgyblion y sir yn derbyn addysg uwchradd yn Sir Ddinbych, fe fyddwn yn cydweithio â, ac yn cefnogi ysgol Creuddyn i ddatblygu cynlluniau penodol i dargedu disgyblion cyfrwng Cymraeg y dalgylch a'u rhieni, er mwyn cynyddu niferoedd y disgyblion sydd yn trosglwyddo yno. Fe fyddwn yn cytuno ar gamau gweithredu gyda'r ysgol erbyn Nadolig 2017 gyda chynlluniau yn weithredol yn fuan yn 2018. Fe fyddwn hefyd yn cydweithio gyda'r ysgol er mwyn ehangu'r cynllun trochi ac i weld twf yn y nifer sydd yn manteisio arno.

Bydd yr ysgol yn edrych i ymhelaethu ar y gweithgareddau a'r cydweithio gyda'r ALL ac Ysgolion Cynradd y dalgylch er mwyn darbwyllo disgyblion o buddiannau addysg Gymraeg o fewn Conwy. Yn yr un modd, bydd cynllun i ddarbwyllo rhieni o rinweddau addysg Gymraeg yn allweddol er mwyn sicrhau bod addysg Uwchradd Cymraeg yng Nghonwy yn opsiwn iddynt.

Bydd yr ysgol yn cydweithio gyda'r ALL er mwyn targedu dysgwyr ail-iaith trwy gyfres o weithgareddau interactiv o fewn yr Ysgol Gynradd ac yn yr Ysgol Uwchradd. Yn yr un modd, bydd cyfleoedd yn cael eu cynnig i ddisgyblion a'u rhieni i ymweld a'r ysgol er mwyn dysgu mwy am y cwrs trochi. Datblygir gwybodaeth i rieni yn ei ddarbwyllo o buddiannau addysg dwy-ieithog i'w plant.

### **Deilliant 3: Mwy o ddisgyblion 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

### **Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.**

Ein sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y disgyblion sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
<b><u>Dyffryn Conwy</u></b> 105 – mamiaith 98 - yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf ag o leiaf 2 cymhwyster arall yn y Gymraeg. (7 wedi newid i'r Famiaith ond heb newid cyfrwng yn CA3 - CA4). (Bl. 11 cyfredol)	<b><u>Dyffryn Conwy</u></b> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 90/100 yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf. 83 yn Gymraeg laith Gyntaf + 2 TGAU+ yn y Gymraeg. (7 wedi pontio mamiaith yn CA3-	<b><u>Dyffryn Conwy</u></b> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 76/86 yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf. Rhagwelwn y byddant i gyd yn cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy	<b><u>Dyffryn Conwy</u></b> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 91/104 yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf. Rhagwelwn y byddant i gyd yn cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. (Blwyddyn 8Cyfredol)

<b><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></b> 99 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith Gyntaf.	4 ond heb newid cyfrwng. (Bl 10 cyfredol.)  <b><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></b> 105 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf	gyfrwng y Gymraeg. (Bl 9 Cyfredol)  <b><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></b> 90 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith gyntaf	<b><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></b> 88 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith gyntaf
---	---	---	--

Ein sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y disgyblion sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
<b><u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u></b> 105 – iaith Gyntaf 98 - yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf ac o leiaf 2 gymhwyster arall yn y Gymraeg. (7 wedi newid i famiaith ond heb newid cyfrwng yn CA3 - CA4). (Bl. 11 cyfredol)	<b><u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u></b> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 90/100 yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf, 83 yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf + 2 TGAU+ yn y Gymraeg. (7 wedi pontio mamiaith yn CA3-4 ond ddim wedi newid cyfrwng. (Bl 10 cyfredol.)	<b><u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u></b> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 76/86 yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf. Anelwn iddynt i gyd cael y cyfle i gofrestru ar gyfer o leiaf 5 gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg. (Bl 9 Cyfredol)	<b><u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u></b> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. 91/104 yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf. Anelwn iddynt i gyd cael y cyfle i gofrestru ar gyfer o leiaf 5 gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg. (Blwyddyn 8 Cyfredol)
<b><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></b> 99 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith Gyntaf.	<b><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></b> 105 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith gyntaf	<b><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></b> 90 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith gyntaf	<b><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></b> 88 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith gyntaf

#### Amcanion:

- Cynyddu'r ganran o ddysgwyr Bl 11 sy'n astudio 5 pwnc TGAU drwy'r Gymraeg erbyn 2023.  
Ysgol y Creuddyn
- Cynyddu'r ganran o ddysgwyr Bl 11 sy'n astudio 5 pwnc TGAU drwy'r Gymraeg 20% erbyn 2023- 2024.

Ysgol Dyffryn Conwy:

- 2018- 89/102 (87%); 2019- 77/92 (84%); 2020- 97/107 (91%)(dibynnol ar niferoedd y cohort/ demograffeg)
- Monitro cyfrwng iaith astudiaethau dysgwyr CA4 a CA5 er mwyn adnabod patrymau a thueddiadau gan ymateb fel bo'r angen.
  
- Sicrhau bod y Gwyddorau Sengl yn cael eu addysgu drwy'r Cymraeg/ Dwyieithog yng Nghonwy erbyn 2020 CA4 a CA5 – (Creuddyn a Dyffryn Conwy yn unig)

### **Datganiad cefnogol:**

### **Ysgol y Creuddyn**

Ysgol y Creuddyn yw unig ysgol benodedig Cymraeg y Sir gyda 573 o ddisgyblion yn mynychu ar hyn o bryd (Medi 2017). Daw'r disgyblion hyn o ysgolion arfordir Conwy.

Dyma'r Cyrsiau TGAU cyfrwng Cymraeg a gynnigir yn Ysgol y Creuddyn

24 pwnc

1. Cymraeg Iaith
2. Cymraeg Llenyddiaeth
3. Mathemateg
4. Mathemateg – Rhifedd
5. Mathemateg Ychwanegol
6. Gwyddoniaeth Dwbl
7. Gwyddoniaeth Driphlyg
8. Bagloriaeth Cymru Canolradd a Sylfaen
9. Addysg Gorfforol
10. Astudiaethau Busnes
11. Astudiaethau Crefyddol
12. Cerddoriaeth
13. Drama
14. Celf a Dylunio
15. Graffeg
16. Dylunio a Thechnoleg
17. Tecstilïau
18. Bwyd a Maeth
19. Datblygiad Plentyn
20. Technoleg Gwybodaeth
21. Ffrangeg
22. Sbaeneg
23. Hanes
24. Daearyddiaeth

## Cyrsiau Lefel A cyfrwng Cymraeg Ysgol y Creuddyn

20 pwnc

1. Cymraeg
2. Mathemateg
3. Mathemateg Pellach
4. Bioleg – cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd (gweler sylwadau)
5. Cemeg cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd (gweler sylwadau)
6. Ffiseg cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd (gweler sylwadau)
7. Bagloriaeth Cymru Uwch
8. Addysg Gorfforol
9. Astudiaethau Busnes
10. Astudiaethau Crefyddol
11. Cerddoriaeth
12. Drama
13. Celf a Dylunio
14. Dylunio a Thechnoleg
15. Iechyd a Gofal
16. Technoleg Gwybodaeth
17. Ffrangeg
18. Sbaeneg
19. Hanes
20. Daearyddiaeth

Mae'r ysgol yn cynnig cynllun trochi ar gyfer disgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sydd eisiau trosglwyddo i'r uwchradd. Mae tua 25 yn manteisio ar y cynllun ar gyfartaledd pob blwyddyn. Mae'r cynllun yn cael ei hunan-arfarnu'n flynyddol fel rhan o brosesau'r ysgol. Mae canlyniadau dysgwyr Trochi yn gyson well na prif dangosyddion yr ysgol ar ddiwedd CA4. Mae hyn yn cynnwys yn y pwnc Cymraeg Iaith Gyntaf.

Fe fyddwn yn cydweithio â'r ysgol i hyrwyddo'r cynllun trochi ymhellach gyda'r nod o gynyddu'r niferoedd erbyn 2025.

Un cwrs Linc sydd yn cael ei ddarparu drwy'r Coleg yn y Gymraeg ar hyn o bryd (Ffrangeg gan YYC- dwyieithog) ond mae Llandrillo Menai yn y broses o ail edrych ar hyn. Mae cytundeb lleol rhwng Y DC ac YYC i gyflwyno rhai cyrsiau.

Mae cyfrwng iaith y cyrsiau Gwyddorau Sengl yn seiliedig ar farn y disgyblion ar ddechrau'r cwrs. Saesneg yw dewis y myfyrwyr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraethwyr wedi penderfynnu i symud tuag at ddarpariaeth drwy'r Gymraeg dros amserlen i'w benodi gan y Pennaeth.

Mae'r Ysgol yn cydweithio gyda Coleg Llandrillo Menai ar gyrsiau Linc drwy'r Partneriaeth 14-19. Er hynny, nid oes cwrs ar hyn o bryd yn cael ei gynnig drwy'r Gymraeg fodd bynnag mae rhai yn ddwyieithog ac mae'r Coleg ar hyn o bryd yn cynllunio sut meddir ehangu'r ddarpariaeth ymhellach. Byddwn yn parhau i gydweithio â CLIM ac yn cynnwys targedau penodol yng nghynllun gweithredol y CSGA er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth erbyn 2020.

**Ysgol Dyffryn Conwy:**

Mae 14 o ysgolion yn bwydo Ysgol Dyffryn Conwy (13 o 2018 oherwydd uno ysgolion Dolgarrog a Thal y Bont) Mae pob pwnc ar gael yn y Gymraeg ond yn cael eu dysgu yn ddwyieithog, ac yn ddibynnol ar y cyfrwng y bu i'r disgyblion ei ddilyn yn CA3. Pan fydd hwyrdyfodiadaid yn cyrraedd ym mlynnyddoedd 9/10, bydd yr ysgol yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn ymdoddi i'r gymdeithas Gymreig yn ogystal â gwarchod cyfrwng y dosbarth. Mae canrannau y dysgu o ran y Gymraeg/ Saesneg yn ddibynnol ar y flwyddyn. BL7 cyfredol- 83%/ BI8 cyfredol- 85%/ BI9 cyfredol, 90%/ BI10 cyfredol-85%. Mae'r rhain wedi dilyn y Gymraeg yn bennaf ond mewn mathemateg BI7 a gwyddoniaeth BI9, dilynir cyfrwng dwyieithog. Ym MI 11 cyfredol -87% wedi dilyn cyfrwng Cymraeg yn bennaf ond mewn mathemateg a gwyddoniaeth, dilynwyd cyfrwng dwyieithog.

O safbwynt y Gwyddorau sengl, mae un grwp Saesneg a 3/4 dosbarth cyfrwng Cymraeg ym MI7/8 (Dibynnol ar y cohort) mae 5 grwp dwyieithog ym mlynnyddoedd 9/10/11 yn gyfredol. Yn y 6ed dosbarth mae'r addysgu yn bennaf drwy'r Saesneg ond yn cynnwys dysgu dwyieithog fel dilyniant o CA4.

Ar sail newidiadau i'r ffrydiau iaith ychydig flynyddoedd yn ol, mae'r potensial o ran cynyddu niferoedd sy'n astudio 5 TGAU neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael ei gyrraedd o fewn y niferoedd. Bydd hyn yn gwella eto unwaith bydd niferoedd yn y cohort yn gyson dros 100. (sef o Medi 2018)

Mae cydweithio yn bodoli rhwng yr ysgol a choleg Llandrillo Menai/ Creuddyn trwy Linc Conwy. Darperir cyrsiau galwedigaethol- amaeth, gofal anifeiliaid bach/ trin gwallt a harddwch ac adeiladwaith yn CA4 yn ddwyieithog.

Mae grwp Llandrillo Menai ar hyn o bryd yn darparu 40% o'u cyrsiau cydweithio drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog(4/10), fodd bynnag erbyn 2019 maent wedi targedu y bydd 100% o'r cyrsiau hyn yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog/ Cymraeg.

Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio a phob ysgol Uwchradd y Sir er mwyn cynyddu'r canrannau sy'n cael eu hasesu trwy'r Gymraeg ym mlynnyddyn 9 a rhoddir cefnogaeth ychwanegol i dair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg sydd yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg iaith gyntaf yn CA3, er mwyn galluogi mwy o ddisgyblion i ennill cymhwyster TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Mae cynnydd da wedi bod yn y rhai a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd CA3: 13/14-17%, 14/15- 19.4%, 15/16-20.1%. Mae hyn yn gynnydd o 3.1%. Eto, mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud yn yr ysgolion a'u hymdrechion i gefnogi datblygiad Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Yn ystod oes y strategaeth hon, fe fyddwn yn ceisio sicrhau bod pob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 yn dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg [Iaith Gyntaf]. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

Fe fyddwn yn sicrhau bod hyrwyddo datblygiad addysg ddwyieithog yn un o flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19 gan fonitro dilyniant ieithyddol priodol ein disgyblion fel rhan greiddiol o'i gylch gorchwyl. Bydd y Rhwydwaith yn monitro bod y cyrsiau yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Ar hyn o bryd, mae 28% o gyrsiau( 5/18) yn cael eu cynnig yn Gymraeg/ Dwyieithog, fodd bynnag mae'r coleg wedi targedu trwy eu cynllun gweithredu, y bydd 83% (15/18) yn cael eu cyflwyno drwy'r Gymraeg/ dwyieithog erbyn 2022

Byddwn hefyd yn annog Rhwydwaith 14-19 i adnabod dulliau amgen o gynnig darpariaeth er enghraifft, trwy annog cydweithio pellach rhwng yr ysgolion a Choleg Llandrillo Menai.

I'r dyfodol:

#### Linc Conwy

- Cynllunio ehangu y ddarpariaeth presennol a chreu cynllun 5 mlynedd ee darparu Cerddoriaeth rhwng y ddwy ysgol.(YYC/ YDC)
- Trefnu adolygiad llawn o Linc Conwy, er mwyn datblygu y Gymraeg ymhellach. Bydd edrych ymhellach ar y pynciau 'gwan' er mwyn cydweithio i ddiogelu y pynciau trwy'r Gymraeg.
- Datblygu ymhellach y ddarpariaeth ddwyieithog/ Cymraeg o ran y pynciau.
- Edrych ar rannu staff sy'n siaradwyr Cymraeg, yn draws sirol ac uwch sgilio staff presennol.
- Ail edrych ar arferion recriwtio gan ystyried anghenion dwyieithrwydd.
- Datblygu mwy o gydweithio ar draws Conwy.

#### Coleg Llandrillo Menai

Presennol:

- Mae hawl gan y myfyrwyr gael tiwtor personol Cymraeg ac i gyflwyno eu gwaith drwy'r Gymraeg ymhob pwnc os dyma yw eu dymuniad.
- Anogir myfyrwyr sydd wedi llwyddo i gael 'C' yn eu TGAU, i ddilyn o leiaf rhan o'u cwrs yn y Gymraeg.
- Mae 'Seren Iaith' eisoes ar waith yn y coleg, a datblygir ymwybyddiaeth y myfyrwyr o bwysigrwydd y Gymraeg ym mywyd bob dydd a bywyd gwaith. Targedir anghenion yn sgil y data gwreiddiol gan ail ymweld a'r broses ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn gweld datblygiad/ pennu targedau.
- Cynhelir wythnos datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn flynyddol.
- Mae'r coleg mewn trafodaethau gyda S4C er mwyn datblygu cynllun peilot- 'Darllodiad Cyntaf', a fydd yn hyrwyddo defnydd pobl ifanc o raglenni teledu Cymraeg.
- E ddysgu:  
Mae'r coleg mewn trafodaethau i geisio lleihau cost e.ddysgu er mwyn galluogi ysgolion i ddefnyddio'r adnodd. Y gobaith yw y bydd y gost fesul pen i'r ysgol yn hytrach nag un cost cyffredinol sydd ar hyn o bryd yn llesteirio y defnydd o'r adnodd.
- Mae uned 'Sgil iaith', ar gael gan y coleg, sydd yn cefnogi datblygu dwyieithrwydd staff ar draws y sector addysg bellach. Gwneir defnydd helaeth o'r adnodd yma.

I'r dyfodol:

- Edrych i uwchsgilio y gweithlu a gwneud defnydd o'r cynllun Sabothol
- Ehangu ymhellach y Modiwl 'MA Addysgu yn ddwyieithog' sydd ar y gweill eisoes.
- Penodi swyddog 'Seren Iaith', i hyrwyddo'r gwaith yma ymhellach.
- Rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau penodi staff dwyieithog.
- Hyrwyddo defnyddio staff rhanbarthol er mwyn sicrhau addysgu dwyieithog ac er mwyn ehangu y pynciau y medrid eu dilyn yn ddwyieithog.
- Mae'n fwriad gan y coleg i baratoi 'Pecyn croesawu' ar gyfer staff a myfyrwyr di- Gymraeg, a fydd yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dwyieithrwydd, ac yn cynnig cefnogaeth.
- Bydd cynrychiolaeth o'r Coleg yn rhan o Fforwm Iaith y sir.

Byddwn hefyd am sicrhau ein bod yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd i bobl ifanc allu parhau i ddilyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol. Eto bydd hyn yn cael ei arwain gan y Bartneriaeth 14-19 er mwyn mapio'r angen am gyrsiau ol-16 drwy'r Gymraeg, a darparu yn ôl yr angen.

#### Deilliant 5: Mwy o ddisgyblion â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Iaith gyntaf	Sefyllfa gyfredol		2017/2018		2018/2019		2019/2020	
Cyfnod Sylfaen D.5/ D6	D5	D6	D5	D6	D5	D6	D5	D6
	84.5	33.7	86%		88%		89%	
CA2 L4/L5	L4	L5	L4	L5	L4	L5	L4	L5
	87.3	38.1	89%		90%		91%	
CA3 L5/L6	L5	L6	L5	L6	L5	L6	L5	L6
	93.5	57.9	94.8	72.5	95	73	95.5	74
CA4 Graddau A*-C	79		83		85		87	

Ail iaith	Sefyllfa gyfredol		2017/2018		2018/2019		2019/2020	
CA2 L4/L5	L4	L5	L4	L5	L4	L5	L4	L5
	75.7%	21.2%	76%	22%	76.5%	22.5%	77%	23%

CA3 L5/L6	L5	L6	L5	L6	L5	L6	L5	L6
	82.3%	40.7%	83%	41%	83.5%	41.5%	84%	42%
	Cwrs Llawn		Cwrs Llawn		Cwrs Llawn		Cwrs Llawn	
CA4 Graddau A*-C	79.5%		80%		80.5%		81%	

### Amcanion:

Cynyddu cyrhaeddiad mewn Cymraeg iaith gyntaf erbyn 2020:

- 89% o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn cyflawni deilliant 5.
- 91% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cyflawni Lefel 4 +
- 95.5% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn cyflawni Lefel 5 +
- 87% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn cyflawni A\* - C.
- Cynyddu cyrhaeddiad mewn Cymraeg ail iaith i 81% A\* - C erbyn 2020.
- Dod a'r defnydd o'r cwrs byr Cymraeg ail iaith i ben erbyn 2020.
- Cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol trwy fapio anghenion ar y cyd a gwasanaethau ieuencid a rhanddeiliaid allweddol i gynyddu cyfleoedd.

### Datganiad cefnogol:

Amcan Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd GwE yw sicrhau bod gan pob disgybl ym mhob ysgol o fewn y rhanbarth y sgiliau iaith a rhif maent eu hangen i lwyddo ar hyd eu taith trwy'r ysgol, ac i ennill y cymwysterau fydd yn eu galluogi i chwarae eu rhan yn llawn mewn byd gwaith a chymdeithas wedi hynny. Ers Medi 2015 mae GwE wedi bod yn gweithredu trefn ddiwygiedig o gefnogi a herio ysgolion. Mae'r drefn ar gyfer ysgolion categori cefnogaeth gwyrdd (a'r rhai cadarnaf o blith yr ysgolion categori cefnogaeth melyn) wedi'i sefydlu ar yr egwyddor o roi mwy o annibyniaeth i'r ysgolion gorau ac i hyrwyddo dull gweithredu arfarnu cymheiriaid. Mae'r model, felly, yn bartneriaeth rhwng cydweithwyr ble rhoddir cyfle i ysgolion sy'n perfformio'n uchel, ar y cyd â GwE, i herio a chefnogi ysgolion eraill sy'n perfformio'n uchel er mwyn lledaenu a rhannu rhagoriaeth. O ganlyniad, mae gan y gwasanaeth rhanbarthol y gallu i gynnig cynhaliaeth a chefnogaeth ddwys i'r ysgolion hynny sydd yn y categori cefnogaeth melyngoch neu goch.

Mae gan y Sir hefyd dîm Ymgynghorol Y Gymraeg sydd yn gyfrifol am gefnogi ysgolion i weithredu Cwricwlwm 2015 a'r Cwricwlwm Ail iaith 2008 gan sicrhau ymweliadau a chynnig cefnogaeth yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu a'r rhaglen hyfforddiant sy'n targedu yn ôl gofynion penodol. Mae'r tîm hefyd yn cydweithio'n agos a CYDAG. Bwriedir ymaelodi pob ysgol gyda CYDAG erbyn 2019 er mwyn iddynt dderbyn gwybodaeth gyfredol, rhannu arfer dda ac uwch sgilio'r gweithlu.

Ar hyn o bryd mae 6% o ddisgyblion y sir yn astudio cwrs byr Cymraeg ail iaith a llwyddodd 4% i gael Graddau A\* i C. Yn sgil cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r cwrs, bydd y Cyngor yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion er mwyn dirwyn



y cwrs byr i ben a galluogi'r holl ddisgyblion i ddilyn y cwrs llawn ail iaith TGAU erbyn 2020.

Fe fyddwn yn hyrwyddo cynllun 'cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc' yn ysgolion uwchradd y Sir, mewn cydweithrediad gyda Chynghorau Ysgol, Urdd/ Menter Iaith, gan flaenoriaethu defnyddio iaith anffurfiol o fewn y gyfundrefn addysgol, paratoi cyfleoedd i gynyddu'r Gymraeg y tu allan i'r gyfundrefn addysgol, codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn parhau i gynnal ac ehangu'r Siarter Iaith i Ysgolion Categori 1 a rhai 4, a chyflwyno Cymraeg Campus, yn ysgolion Categori 4 a 5.

Fel sydd eisoes yn cael ei nodi yn y strategaeth hon, mae cydweithio gyda partneriaid ein Fforwm yn allweddol i lwyddiant ein strategaeth. Byddwn felly yn cryfhau ymhellach ein perthynas â mudiadau cymunedol sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc sef Urdd, Menter Iaith, Ffermwyr Ifanc, Clybiau Ieuenctid, Cyngor ysgolion.

Fe fyddwn yn gweithio gyda'r mudiadau uchod i dargedu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol mewn ardaloedd sy'n cael eu hadnabod gan ddata'r Siarter Iaith. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael a thargedu gweithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n cynyddu faint o Gymraeg a ddefnyddir fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

Fe fydd holl randdeiliaid y sir yn cyrfannu at gynllun gweithredu'r strategaeth hon.

## **Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg**

### **Amcanion:**

- Cynnal Aseiad Anghenion Datblygu Ychwanegol y Sir gan werthuso'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg erbyn 2020.
- Sicrhau darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar hyd y continiwm ADY.
- Datblygu sgiliau ieithyddol staff arbenigol ar draws y Sir a datblygu rhaglen DPP priodol ar gyfer staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion ADY mewn ysgolion.
- Hwyluso cyfleoedd dysgu a cymdeithasol gan ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Cymraeg yn Ysgol y Gogarth.

### **Datganiad cefnogol:**

Mae Cyngor Sir Conwy wedi ymrwmo i sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn derbyn cefnogaeth ieithyddol briodol trwy cyfrwng Cymraeg. Bydd capasiti y gwasanaeth cyfredol yn cael ei asesu'n flynyddol a byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir yn y ddarpariaeth er enghraifft, pan fo swyddi gwag yn codi, byddwn yn parhau i hysbysebu am staff sydd ar gallu i gyfathrebu a chefnogi trwy'r Gymraeg er mwyn sicrhau cefnogaeth ddwyieithog addas yn ganolog, yn yr ysgolion, ac yn yr unedau amrywiol.

Mae darpariaeth Gymraeg ar gael yn y Sir ar gyfer y disgyblion a'r rhieni ac mae datblygu'r Gymraeg ymhellach yn un o amcanion Cynllun gweithredu yr adran AAY.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i sicrhau fod disgyblion mewn darpariaeth prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn derbyn cefnogaeth gyfartal i'r hyn sydd i'w gael mewn darpariaeth prif ffrwd cyfrwng Saesneg. Er mwyn cylfawni hyn fe fyddwn yn sicrhau mynediad i'r cwrs Sabothol ar gyfer staff ynghyd a chynlluniau i gefnogi rhieni.

Mae gan y Sir ddarpariaeth ddwyieithog addas ar gyfer cefnogi amrediad eang o anghenion AAY a byddwn yn gwahodd aelod o'r tîm AAY Sirol a chynrychiolydd Ysgol y Gogarth i fod yn aelodau o Fforwm Strategol y Gymraeg er mwyn sicrhau ateb anghenion/ rhannu a lledaenu gwybodaeth.

Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg eisoes yn cefnogi Ysgol y Gogarth ac Unedau AAY o ran datblygu dwyieithrwydd ac fe fyddwn yn parhau i wneud hynny gan ymateb i unrhyw anghenion pellach a fyddai'n codi o'r archwiliad i anghenion arbennig disgyblion y Sir a fydd yn cael ei gynnal yn unol ag amserlen y Llywodraeth. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi cynllun cyfeirio cyn ysgol i gyflawni anghenion plant a rhieni o fewn lleoliadau nas gynhelir a sicrhau ymyrraeth cynnar.

## **Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

Amcanion:

Sicrhau fod Ysgolion a Llywodraethwyr yn dilyn polisiâu'r Sir pan yn recriwtio er mwyn cynyddu gweithlu dwyieithog y sir, trwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth gyda'r penaethiaid, Llywodraethwyr a Chynghorwyr ar bwysigrwydd a manteision dwyieithrwydd ynghyd â sesiynau ymwybyddiaeth iaith erbyn Chwefror 2018

Datblygu/ Uwchsgilio sgiliau Cymraeg y gweithlu 2017 ac ymlaen, trwy annog a chefnogi staff i fynychu cyrsiau uwch sgilio a chynnig ol- ofal er mwyn hybu datblygiad parhaus. Hybu'r defnydd o gynllun Sabothol yn yr ysgolion, er mwyn sicrhau datblygiad ieithyddol gan gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun i 10 yn flynyddol. Bydd gwasanaeth ol ofal ar gael fel uchod.

Mae'r darpariaeth ar gyfer cymhorthyddion a staff cefnogol/ gweinyddol ysgolion yn allweddol er mwyn gallu symud ysgol yn eu blaen drwy'r Gymraeg. Fe fyddwn felly yn cydweithio a Choleg Llandrillo Menai i gynnig darpariaeth ar gyfer hyfforddwyr fel bod

ganddynt y sgiliau i gynnig hyfforddiant ddwyieithog erbyn 2023. Cydweithio'n agos â Phrifysgol Bangor hefyd, fel bo staff yn medru mynychu cyrsiau Sabothol cyfagos.

### **Datganiad cefnogol:**

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i ymgorffori datblygu sgiliau staff ym mhob cynllun datblygu ysgol.

Ionawr 2018, byddwn yn cynnal archwiliad sgiliau iaith Gymraeg er mwyn clustnodi bylchau sgiliau cyfredol a lle bydd y bylchau'n debygol o fodoli yn y dyfodol. Wrth i ni addasu'r polisi iaith a chryfhau'r disgwyliadau o ran gallu staff i gyfathrebu yn y Gymraeg fe fyddwn yn ymateb i'r archwiliad ac yn sicrhau ein bod ni'n cyfathrebu hefo'r ysgolion er mwyn targedu ardaloedd/pynciau penodol lle mae prinder mewn sgiliau dwyieithog ar hyn o bryd.

Bydd newidiadau mewn faint o Gymraeg a ddysgir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn effeithio ar anghenion sgiliau staff a'r cymorth ieithyddol a fydd angen gan GwE a'r Cyngor. Fe fyddwn felly, trwy gydweithio â GwE a thrwy ein tîm Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg yn cynnig cefnogaeth i'r ysgolion hyn ac yn targedu ysgolion penodol i fanteisio ar y cynllun sabothol y Gymraeg yn unol a'r meysydd blaenoriaeth fel y nodwyd yn neilliannau 1 i 6 y cynllun strategol hwn. Fe fydd yr Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg hefyd yn cefnogi staff yr ysgolion, i'w uwch-sgilio er mwyn medru defnyddio'r iaith Gymraeg yn y dosbarth gyda'r disgyblion, yn weinyddol, yn gymdeithasol yn yr ysgol a thu hwnt.

Byddwn yn parhau i gydweithio â Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd trawsawdurdod a Llywodraeth Cymru, i ddylanwadu ar arferion/ anghenion ieithyddol y Sir, ac i wthio ymlaen strategaethau/ cynlluniau diweddaraf a disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Byddwn hefyd yn ystod ein sesiynau hyfforddiant i Lywodraethwyr ysgolion ar y strategaeth hon, yn codi ymwybyddiaeth o'r angen am sgiliau dwyieithog a bod monitro cynnydd yn sgiliau eu staff yn allweddol. Fe fyddwn hefyd am annog llywodraethwyr pob ysgol yn y sir i gynnwys adroddiad ar yr iaith Gymraeg yn eu hadroddiad blynyddol i rieni.

Llofnodwyd



Dyddiad: .....

**Dr Lowri Brown**

**Pennaeth Gwasanaethau Addysg Dros Dro (Prif Swyddog Addysg)**